



Comisiynydd Plant Cymru

Beth Nesa? What Next? – Sgyrsiau

Darganfyddiadau o ran gyntaf ein hymgyngoriad mwyaf erioed gyda phlant a phobl ifanc



Cyflwyniad **2**

**Adborth y plant a'r bobl
ifanc** **6**

Adborth yr Oedolion **21**

Diweddglo **35**



beth nesa'
what next

dweud eich dweud
have your say

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd gan blant ac oedolion yn ystod cyfnod cyntaf yr 'ymgyngoriad 'Beth Nesa?', a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ystod haf 2015, er mwyn helpu i lywio datblygiad blaenoriaethau'r Comisiynydd yn y dyfodol.

Y deunydd ymgynghori a gasglwyd

Casglwyd y deunydd gan blant mewn amrywiaeth o gyd-destunau, a thrwy amrywiaeth o ddulliau a chyfryngau, gan gynnwys trafodaethau a gweithgareddau grŵp, holiaduron, gwaith celf, fideos, cyflwyniadau a sylwadau ysgrifenedig. Yn sgîl yr amrywiaeth hwn defnyddiwyd fframwaith cyson ar draws yr ymgynghoriad plant, oedd yn canolbwyntio ar faterion cysylltiedig â dweud eu dweud, darpariaeth a diogelu mewn gwahanol rannau o fywydau plant - yn arbennig yr ysgol, y gymdogaeth/gymuned a'r cartref. Ar ben hynny, gofynnwyd i lawer o blant beth roedden nhw'n teimlo ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Comisiynydd Plant. Lluniwyd yr ymgynghoriad er mwyn siarad ag ystod eang o blant o wahanol rannau o Gymru, a chynnwys plant o is-grwpiau neu amgylchiadau arbennig (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, plant ag anableddau ac anghenion ychwanegol a phobl ifanc LHDT). Hyd yma mae deunydd o 20 o ddigwyddiadau gwahanol wedi cael ei ddadansoddi, ac amcangyfrifir bod cyfnod cyntaf yr ymgynghoriad wedi cynnwys dros 700 o blant..

Cafodd y deunydd gan oedolion ei gasglu'n bennaf oddi wrth weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, neu'n ymwneud â nhw, ond roedd hefyd beth deunydd gan rieni plant iau a chan grwpiau o oedolion yn gyffredinol. Nid oedd union nifer y cyfranogwyr ar gael ar gyfer yr holl ddigwyddiadau, ond mae'n sicr bod mwy na 200 o weithwyr proffesiynol ac oedolion eraill wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad. Mewn llawer o achosion casglwyd ymatebion gan oedolion trwy gardiau post, a oedd yn gofyn iddyn nhw nodi beth roedden nhw'n teimlo ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Comisiynydd Plant yn ystod y blynyddoedd nesaf. Hefyd cynhwyswyd nodiadau o nifer o

gyfarfodydd gydag unigolion a grwpiau yn y deunydd..

Ceir rhestr gyflawn o'r deunydd a ddadansoddiwyd ar gyfer y ddogfen hon mewn atodiad .

Sut cafodd y data ei ddadansoddi a sut mae'n cael ei gyflwyno

Yn y cyfnod dadansoddi cychwynnol, defnyddiwyd y fframwaith a ddisgrifiwyd uchod yn fan cychwyn - gan ganolbwyntio ar y 3D - diogelu, darpariaeth a dweud eich dweud - yng nghyswllt y cartref, yr ysgol a'r gymuned, yn ogystal â barn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, awgrymodd yr ymdrechion cychwynnol i gategoreiddio'r deunydd o dan y penawdau hyn fod angen rhai addasiadau.

Yn gyntaf, oddi mewn i'r categorïau diogelu, darpariaeth a dweud eich dweud, roedd tuedd i gael themâu cyffredin ar draws cyd-destunau'r cartref, yr ysgol a'r gymuned (e.e. bwlio), felly fe wnaethon ni benderfynu aildrefnu'r deunydd mewn modd thematig, yn hytrach nag yn ôl cyd-destun.

Yn ail, roedd atebion y plant a'r oedolion i gwestiynau ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd yn gorgyffwrdd â materion a drafodwyd yng nghyswllt y tair D, ac felly buasai'n ailadroddus cyflwyno crynodeb o'r atebion hyn ar wahân. O'r herwydd, fe wnaethon ni rannu'r deunydd blaenoriaethau yn ôl categorïau'r tair D.

Unwaith roedden ni wedi datblygu a mireinio'r fframwaith fel uchod, fe aethon ni nôl drwy'r holl ddeunydd i wirio'r fframwaith diwygiedig, nodi unrhyw addasiadau ychwanegol oedd yn angenrheidiol a dewis dyfyniadau enghreifftiol.

Strwythur yr adroddiad

Fel y gwelir, roedd rhai gwahaniaethau rhwng persbectif a blaenoriaethau'r plant a'r oedolion. Buasai'n anodd creu strwythur ar gyfer yr adroddiad a oedd yn cysoni'r gwahaniaethau hyn yn llwyr. Penderfynwyd, felly, mai'r dull mwyaf priodol oedd cyflwyno deunydd y ddau grŵp ar wahân, ac yna gwneud sylwadau ynghylch nodweddion tebyg a gwahaniaethau yn ddiweddarach. Ar y sail hon, yn dilyn yr adran ragarweiniol fer hon, mae strwythur gweddill yr adroddiad fel a ganlyn.

Mae Adran 2 yn trafod y deunydd a gasglwyd gan blant a phobl ifanc. Mae wedi'i threfnu'n bedair adran: themâu cyffredinol trawsbynciol; ac yna adrannau ar y tair D - diogelu, darpariaeth a dweud eich dweud.

Mae Adran 3 yn trafod y deunydd a gasglwyd gan oedolion ac yn defnyddio'r un strwythur ag Adran 2.

Yn y ddwy adran hon rydym wedi ceisio bod mor ddisgrifiadol â phosibl, ac osgoi gwneud asesiadau gwerthuso. Rydym wedi ceisio cyflwyno cynifer o wahanol safbwyntiau â phosibl, gan ddefnyddio dyfyniadau, a gadael i'r rheiny siarad drostynt eu hunain gymaint â phosibl.

Yn adran olaf y ddogfen rydym yn gwneud rhai sylwadau cyffredinol am y deunydd yn Adrannau 2 a 3.


Fframwaith: Hawliau a Lles

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw 'diogelu a hybu hawliau a lles plant (yng Nghymru)'..

At ddibenion y ddogfen hon, y mater yr oedd angen i ni ymdrin ag ef oedd nad oedd llawer o'r sylwadau (yn arbennig gan blant) yn ffitio'n dwt i fframwaith tair D CCUHP. Fodd bynnag, er mwyn gweithio gyda'r fframwaith hwn, roedden ni'n teimlo bod modd ehangu cysyniad pob un o'r elfennau 'diogelu', 'darpariaeth' a 'dweud eich dweud', er mwyn medru cadw un fframwaith cydlynus. Er enghraifft, wrth drafod darpariaeth rydyn ni'n ystyried sut gallai'r holl anghenion a nodwyd gan blant gael eu darparu, oddi mewn a'r tu allan i'r dull seiliedig ar hawliau a geir yn CCUHP. Gallai'r syniad o 'gefnogeth' gael ei

gwmpasu'n rhannol gan hawliau CCUHP – e.e. cefnogaeth broffesiynol i blant sy'n byw oddi cartref - ond mae plant hefyd yn gyffredinol yn pwysleisio pwysigrwydd y gefnogaeth maen nhw'n ei chael o ffynonellau anffurfiol - er enghraifft ffrindiau neu neiniau a theidiau.

Y syniad sylfaenol a welir yn y diagram yw bod gan blant amrywiaeth o anghenion sy'n hybu eu llesiant. Gellir categorio'r rhain o dan benawdau cyffredinol diogelu, darpariaeth a 'dweud eich dweud'. Mae rhai o'r anghenion hyn yn cael eu cwmpasu'n llwyr neu'n bennaf yn yr hawliau a geir yn CCUHP, ond mae eraill wedi'u cwmpasu'n rhannol neu ddim o gwbl. Bwriad y diagram yw egluro'r cysylltiadau rhwng hawliau, anghenion a llesiant.



Adborth y plant a'r bobl ifanc

Materion cyffredinol / trawsbynciol

Yn gyffredinol, trafododd y plant a'r bobl ifanc y dylai Sally, fel Comisiynydd Plant, weithio i hyrwyddo hawliau plant:

C: Taset ti yn lle Sally, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n ei wneud?

A: Gwneud yn siŵr bod plant yn gwybod am eu hawliau

—— Cynhadledd Gwobrau Parchu Hawliau

Ar yr un pryd roedd llawer o sylwadau cyffredinol y plant am flaenoriaethau yn ymwneud â phlant yn 'bod yn hapus'. Roedd yn ddiddorol bod plant, mewn rhai achosion, wedi tynnu sylw at y cysylltiad rhwng hawliau a lles a drafodwyd uchod:

C: Taset ti yn lle Sally Holland, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n ei wneud i wella bywydau plant yng Nghymru?

A: Gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu clywed ac yn gallu bod yn hapus

—— Fforwm Ieuenctid Iau

Er bod mwyafrif ymatebion y plant yn ymwneud â bywydau plant yn gyffredinol, roedd rhai yn canolbwyntio'n fwy penodol ar is-grwpiau arbennig. Rydym wedi integreiddio'r sylwadau hyn i'r adrannau thematig gymaint â phosib. Ond dylid nodi, mewn rhai achosion, fod plant a phobl ifanc yn y gwahanol ddigwyddiadau'n teimlo y dylai Sally ganolbwyntio ar grwpiau penodol megis:

—— “plant sy'n derbyn gofal”

—— “plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig”;
a

—— phlant ag “anghenion arbennig” ac
“Anghenion Dysgu Ychwanegol”.

Diogelu

O dan gategori eang diogelu roedd rhai o ymatebion y plant (yn arbennig yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd) yn cyfeirio'n gyffredinol iawn at bwysigrwydd y ffaith bod plant yn teimlo'n ddiogel a'r cysylltiadau â llesiant cyffredinol:

Gwneud yn siŵr bod plant yn teimlo'n ddiogel, achos fel arall allan nhw ddim bod yn hapus

—— Fforwm Ieuencid

Ymhlith y sylwadau mwy penodol, roedd nifer o themâu allweddol yn dod i'r amlwg, ac roedd y rheiny'n berthnasol ar draws gwahanol gyd-destunau'r cartref, yr ysgol a'r gymdogaeth.

Bwlio

Roedd llawer o'r materion diogelu a godwyd gan blant yn ymwneud â diogelwch a risgiau yng nghyswllt eu perthynas â phobl roedden nhw'n eu hadnabod.

Roedd bwlio'n fater amlwg iawn i blant, ac roedd hynny'n cynnwys materion cysylltiedig â bwlio gan frodyr a chwiorydd gartref, gan blant eraill yn yr ysgol a seiberfwlio:

Rydw i wedi bod yn yr ysgol ers 5 mlynedd, a doeddwn i byth yn gwybod bod gennym ni siarter gwrthfwlio.

—— Grŵp Cymunedau yn Gyntaf o Blant a Phobl Ifanc

Gweithio gyda chyfryngau cymdeithasol i roi stop ar seiberfwlio

—— Fforwm Ieuencid Iau

Mae fy mrawd yn codi ofn arna i

—— Disgybl Ysgol

Roedd taclo bwlio yn flaenoriaeth i nifer o blant:

Rhoi gwybod i'r byd am hawliau a rhoi stop ar fwlio

—— Person Ifanc sy'n Derbyn Gofal

Peidio â goddef bwlio

—— Fforwm Ieuencid

Ail fater oedd mathau eraill o ymladd a gwrthdaro:

Pan fydd mam a dad yn dadlau

—— Llysgennad Gwych

Trydydd pwnc oedd camdriniaeth:

Dylen nhw ganolbwyntio ar Erthygl 39 – 'Dylai plant gael help arbennig os ydyn nhw wedi cael eu cam-drin', achos mae'n bwysig iawn

—— Person Ifanc sy'n Derbyn Gofal

Ac roedd sylwadau eraill a allai gael eu dehongli fel rhai oedd yn ymwneud â'r drafodaeth ynghylch rhieni'n rhoi cosb gorfforol i blant:

Bod plant ddim i gael eu taro am unrhyw reswm.

—— Disgybl Ysgol Uwchradd

Risgiau yn sgîl pobl eraill

Mater arall oedd yn effeithio ar ymdeimlad plant o ddiogelwch a sicrwydd oedd bygythiadau canfyddedig gan 'eraill' y tu hwnt i'w rhywdwaith o berthnasod agos. Roedd rhai o'r materion hyn yn eitha penodol, ac wedi'u gwreiddio ym mhrofiadau pob dydd plant:

Rydw i'n byw ar stryd ryff yn Abertawe lle mae pobl yn ymladd, yn delio mewn cyffuriau ac yn cael eu stabio. Y rheswm yw bod dim digon o dai ar gael.

—— Person Ifanc

'Graffiti'n dweud 'Kill the gays'

—— Person Ifanc

Dyweddodd un o'r bobl ifanc ei bod wedi cael ei dilyn

—— Person Ifanc

Cyffuriau yn yr ardal - ardaloedd penodol

—— Gofalwr Ifanc

Mewn achosion eraill roedd y sylwadau'n fwy haniaethol, yn cyfeirio at 'ddieithriaid', 'gangiau', 'troseddwyr', 'pobl creepy', 'pobl alcoholig a phobl anghyffredin yn loetran', ac yn y blaen. Adlewyrchwyd y pryderon hyn mewn sylwadau ynghylch yr angen am ddiogelwch gartre, yn yr ysgol, yn y gymuned ac ar y rhynggrwyd (y tu hwnt i fater seiberfwlio a drafodwyd uchod):

Gerddi heb ffensys

—— Disgybl Ysgol Gynradd

**[Yn yr ysgol] :
Mae'r gât bob amser ar agor
Dyw'r drysau byth wedi'u cloi.**

—— Llysgennad Gwych

**Os ydyn nhw'n byw mewn dinas
fawr y rheswm yw bod lot o
ddieithriaid**

—— Llysgennad Gwych

**Rwy'n meddwl y dylen ni gael yr
hawl i fod yn ddiogel ar y rhynggrwyd
ac mewn cyfryngau cymdeithasol.**

—— Disgybl Ysgol Uwchradd

Bod ar eich pen eich hun

Yn gysylltiedig â'r thema hon oedd yn trafod risgiau posib, soniodd rhai plant am fod ar eu pen eu hunain fel rhywbeth oedd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel:

**Pan fydda i ar fy mhen fy hun yn y
stryd
Pan fydda i'n unig yn yr ardd**

—— Plentyn yn Eisteddfod yr Urdd

Roedd nifer o sylwadau eraill tebyg yn cyfeirio at gyd-destunau penodol - er enghraifft, bod ar eu pen eu hunain wrth arhosfan bws.

Amgylcheddau

Thema ar wahân sy'n gysylltiedig â phrofiad plant o'u hamgylcheddau. Un agwedd ar hyn oedd ansawdd amgylcheddau lleol:

Dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar hyd llwybrau heb eu goleuo

—— Aelod o Fforwm Ieuenctid

Goleuadau stryd

—— Aelod o Gyngor Ysgol

Roedd traffig a diogelwch ffyrdd yn fater oedd yn codi'n gyson :

Mwy o swyddogion yr heddlu, Traffig Arafach, ... Camerâu Cyflymdra, Mwy o arwyddion traffig,

—— Llysgennad Gwych

Llawer o draffig

—— Llysgennad Gwych

Roedd hefyd nifer o sylwadau am beryglon amgylcheddol yn gyffredinol - dŵr, clogwyni, seiniau ac anifeiliaid:

Cŵn gwallgo + loco

—— Disgybl Ysgol Gynradd

Materion mwy cyffredinol

Yn olaf, roedd rhai sylwadau hefyd ynghylch materion llawer mwy cyffredinol sy'n effeithio ar deimladau plant o ran diogelwch:

Rhyfeloedd

—— Plentyn yn Eisteddfod yr Urdd

Darpariaeth

Un sylw cyffredinol a wnaed wrth drafod darpariaeth oedd bod gwahaniaethau o ran faint o wasanaethau a geir a mynediad iddynt mewn ardaloedd gwledig a threfol, oherwydd ffactorau megis cludiant cyhoeddus gwael. Ar ben hynny, bu Gofalwyr Ifanc hefyd yn trafod y ffaith nad oedd cyfleusterau hamdden ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, er enghraifft prydu bwyd neu nosweithiau comedi. Roedd pryderon hefyd, yn arbennig ymhlith pobl ifanc mewn cyfarfod fforwm tai, y byddai'r bwriad i "gyfuno cynghorau yng Nghymru", yn ogystal â "thoriadau ariannu" yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth.

Roedd y sylwadau eraill a wnaed gan blant a phobl ifanc yn y digwyddiadau yn cyfeirio at y math o ddarpariaeth roedden nhw'n teimlo bod ar blant a phobl ifanc ei hangen. Bu modd grwpio'r math o ddarpariaeth yn wyth categori, sef Sylfaenol/Goroesi, Emosiynol, Addysgol, Iechyd, Ariannol, Hamdden, Technolegol a Darpariaeth Gymraeg. O ran y rhai oedd yn cynnig y darpariaethau hyn, cyfeiriodd y plant a'r bobl ifanc at amrywiaeth o bobl yn eu rhwydwaith cymdeithasol anffurfiol, megis "Rhieni, athrawon, brawd/chwaer, Ffrindiau, Neiniau a Theidiau", yn ogystal ag aelodau o'u teulu estynedig. Cyfeiriodd plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau hefyd at weithwyr proffesiynol o fewn eu rhwydwaith cymdeithasol ffurfiol, er enghraifft "Yr Heddlu, meddygon ac athrawon"; sefydliadau fel "Childline a Barnardo's", yn ogystal â "Sally Holland". Bydd yr adran nesaf yn trafod yr wyth math o ddarpariaeth y cyfeiriodd plant a phobl ifanc atynt.

Darpariaeth sylfaenol / goroesi

Pan ofynnwyd pa bethau oedd eu hangen ar blant a phobl ifanc yng Nghymru i wneud eu bywydau'n well, cyfeiriodd plant a phobl ifanc ar draws gwahanol

ddigwyddiadau at ddarpariaeth sy'n sicrhau bod plant yn gallu byw, goroesi a datblygu'n iach - priif egwyddorion Erthygl 6 yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd cyfranogwyr yn gyffredinol ar draws gwahanol ddigwyddiadau yn trafod darpariaeth oedd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n gynnes. Er enghraifft, rhestrodd rhai o Lysgenhadon Gwych y Comisiynydd y canlynol fel pethau oedd eu hangen ar blant, neu fel pethau roedd angen mwy ohonynt:

Dillad, clustogau, llieiniau gwely, cartref, gwres

—— Llysgennad Gwych

Soniodd nifer o blant a phobl ifanc hefyd am fwyd a dŵr glân pan holwyd beth fyddai'n gwella bywydau plant yng Nghymru.

C: Beth sydd ei angen arnat ti? A: Yr ymateb: dŵr glân

—— Plentyn yn Eisteddfod yr Urdd

C: Beth wyt ti'n meddwl fyddai'n gwneud pethau'n well i fywydau plant yng Nghymru? A: Dŵr, cysgod, bwyd ...

—— Plentyn yn Eisteddfod yr Urdd

Er i un cyfranogydd yn yr Urdd wneud y pwynt mai "Dim ond plant yn Affrica sydd ddim yn cael beth sydd ei angen arnyn nhw", teimlai cyfranogwyr eraill ar draws y gwahanol ddigwyddiadau nad oedd rhai plant a phobl ifanc yn cael digon o ddarpariaeth sylfaenol a goroesi, os o gwbl. Nododd rhai Llysgenhadon Gwych fod "Rhai plant [yng Nghymru] heb gartref". Ar ben hynny, roedd rhai o'r Llysgenhadon Gwych yn ymwybodol o'r cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig:

C: Ydych chi'n meddwl bod gan blant yng Nghymru bopeth sydd ei angen arnyn nhw i dyfu i fyny'n iach ac yn hapus?
A: Mae rhieni'n methu fforddio bwyd ac yn defnyddio banciau bwyd

—— Llysgennad Gwych

O ganlyniad, bu nifer o'r cyfranogwyr mewn gwahanol ddigwyddiadau yn trafod y dylai sicrhau darpariaeth Sylfaenol/Goroesi ddigonol i blant a phobl ifanc er mwyn iddyn nhw fedru byw fod yn un o flaenoriaethau Sally:

C: Taset ti yn lle Sally Holland, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n ei wneud i wella bywydau plant yng Nghymru?
A: Gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael digon o fwyd

—— Fforwm Ieuenctid Iau

Darpariaeth Emosiynol

Dyw Darpariaeth Emosiynol, sy'n cyfeirio at ddarpariaeth sy'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn hapus, ddim yn cael ei chynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er gwaethaf hyn, cyfeiriodd plant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn y digwyddiadau at nifer o bethau a fyddai'n sicrhau llesiant plant. Dyma rai ohonynt:

C: Beth allai wneud bywydau plant yn well yng Nghymru?

A: Mwy o gariad, Mwy o bobl i droi atyn nhw, Mwy o ysbrydoliaeth, Mwy o hapusrwydd a rhyddid.

—— Llysgennad Gwych

Pan ofynnwyd iddyn nhw beth sy'n eu gwneud yn hapus, cyfeiriodd plant yn yr Urdd at bobl sy'n rhan o'u rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol, er enghraifft rhieni, teulu a ffrindiau.

Cafodd gwella llesiant plant ei drafod yn gyffredin fel rhywbeth y dylai Sally ei wneud, fel Comisiynydd Plant, i wella bywydau plant:

C: Tasen i yn Ile Sally Holland byddwn i'n....

A: Gwneud yn siŵr bod plant yn cael teulu neis cariadus

—— Aelod o Gyngor Ysgol

Tasen i yn Ile Sally, byddwn i'n gwneud yn siŵr bod pawb yn hapus.

—— Llysgennad Gwych

Darpariaeth Addysgol

Mae Darpariaeth Addysgol yn cyfeirio at Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n datgan bod "gan bob plentyn yr hawl i addysg gynradd". Pan ofynnwyd 'beth oedd ei angen ar blant', trafododd rhai cyfranogwyr yn y gwahanol ddigwyddiadau fod angen "ysgol" neu

"fynediad at addysg" ar blant. (Yn fwyaf cyffredin, nododd plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau y byddai "addysg dda" ac "addysg well" yn gwneud bywydau plant yn well yng Nghymru. Agweddau ar yr ysgol yr oedd y cyfranogwyr yn teimlo allai fod yn well oedd y cwricwlwm, cyfleusterau, offer, athrawon, a'r cinio sydd ar gael yn yr ysgol:

C: Taset ti yn Ile Sally Holland, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n ei wneud i wella bywydau plant yng Nghymru?

A: Gwaith coed yn fy ysgol gynradd
A: Gwneud yn siŵr bod athrawon yn cyrraedd y safon

—— Aelod o Fforwm Ieuencid Iau

C: Wyt ti'n meddwl bod plant yn cael popeth sydd ei angen arnyn nhw i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach?

Ysgrifenna beth rwyt ti'n meddwl dylai plant gael mwy ohono.

A: Pensiliau newydd, Llyfrau, Cinio ysgol rhatach, cit Ymarfer Corff sbâr gwell, Amser chwarae hirach

—— Llysgennad Gwych

C: Tasen i yn Ile Sally Holland byddwn i'n

A: Amgylchedd ysgol mwy eco-gyfeillgar, e.e. ffynnon ddŵr, coed a meinciau ac ati.

Trefnu clybiau ar ôl ysgol i helpu pobl sydd ag unrhyw broblemau

Trefnu mwy o bethau chwarae i ysgolion

—— Aelod o Gyngor Ysgol

C: Gwasanaethau sydd ddim gennym ni neu y gallen ni wneud yn well

A: Ysgol – dim clwb drama, dim byd ond clwb chwaraeon

—— Gofalwr Ifanc

Sgyrsiau

C: Taset ti yn lle Sally, beth fyddet ti'n ei wneud i wella pethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru?

A: Mae'r gwersi iechyd rhyw yn yr ysgolion bob amser yn negyddol, e.e. sôn am gost beichiogrwydd yn yr arddegau. Rydyn ni'n clywed gormod o stwff negyddol. Mae ABCCh yn troi'n wers ar feichiogrwydd yn yr arddegau..

—— Aelod o Fforwm Ieuenctid

Q: Pa bethau sydd angen gwella? [What things need to be improved?]

A: Addysg LGBT [LGBT Education]

—— Person ifanc LGBT

Soniodd plant o wahanol gefndiroedd am wahanol anghenion addysgol. Er enghraifft, soniodd plant mewn Ysgol Arbennig y gallai eu mynediad corfforol i'r ysgol gael ei wella mewn nifer o ffyrdd:

C: Ddim ar gael - Gwael

A: Angen llenwi tyllau yn y lle chwarae

Ceisio gwneud lle i barcio

—— Disgybl Ysgol Arbennig

Teimlai pobl ifanc o gyfarfod fforwm tai fod angen i athrawon "gael hyfforddiant am anghenion pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol". Ar ben hynny, bu pobl ifanc o'r digwyddiad yma'n trafod sut byddai gwersi sgiliau bywyd, yn ogystal â phrofiad gwaith, yn eu helpu:

C: Beth fyddet ti'n gwneud i wella bywydau pobl ifanc yng Nghymru?

A: Addysg sgiliau bywyd, e.e. coginio, tai, cyllidebu

—— Person Ifanc mewn cyfarfod fforwm tai

Dyw pobl ifanc ddim bob amser yn gwybod beth maen nhw eisiau ei wneud yn eu bywydau, felly roedden nhw'n teimlo bod profiad gwaith yn bwysig iawn. Doedd pawb ddim wedi cael cyfle i gael profiad gwaith yn yr ysgol. Roedd awgrym y gallai profiad gwaith gael ei ddefnyddio i greu ffocws ar gyfer gweddill eu dysgu, a chael ei anelu at y llwybr gyrfa maen nhw wedi'i ddewis.

—— Person Ifanc mewn cyfarfod fforwm tai

Darpariaeth Iechyd

Yn y gwahanol ddigwyddiadau, bu'r plant a'r bobl ifanc hefyd yn trafod y ffaith y byddai mynediad at "ofal meddygol" yn gwella bywydau plant yng Nghymru – roedd prif elfennau Erthygl 24, sy'n datgan "*bod gan blant hawl i gael bwyd da a dŵr ac i weld meddyg os byddan nhw'n sâl*" yn cael eu hystyried yn bethau a fyddai'n gwneud bywydau plant yn well yng Nghymru. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn ystyried bod ffordd iach o fyw yn cael ei hybu gan nifer o wahanol sefydliadau:

C: Pa wasanaethau sydd gen ti i gadw'n iach ac yn ddiogel?

A: Addysg Gorfforol orfodol, Clybiau Ieuencid, Clybiau Amser Cinio, 5x60 – Mwy o weithgareddau yn yr ysgol ac Ar ôl Ysgol, Clybiau ar ôl Ysgol, Cyfleusterau Chwaraeon Lleol

— Aelod o Gyngor Ysgol

Q: : Ydy pobl ifanc yn cael popeth sydd ei angen arny'n nhw i dyfu i fyny'n iach ac yn ddiogel? E.e. Gwasanaethau (Ysgol, Hamdden, Cludiant)

A: Mae'r ysgol yn darparu Opsiynau Iach – Bwyd – Ffitrwydd, Ymgynghorwyr Iechyd

— Disgybl Ysgol Uwchradd

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod modd gwella gwasanaethau iechyd a hybu iechyd plant. Er enghraifft, roedd rhai o'r Llysgenhadon Gwych yn teimlo bod angen "*ffrwythau rhatach*" a "*diodydd a bwyd iach*" ar blant. Ar ben hynny, roedd cyfranogwyr o ysgol uwchradd yn credu bod "Grwpiau Iechyd" a "Grwpiau Cefnogi", yn arbennig yng nghyswllt "Bwlio Iechyd Meddwl" ar goll, i helpu plant i dyfu i fyny'n iach ac yn ddiogel.

O ran Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc, teimlai pobl ifanc o Ward Iechyd Meddwl i bobl ifanc fod agweddau cadarnhaol i'r uned, er enghraifft y ffaith "ei bod hi ddim yn teimlo fel bod mewn ward ysbyty" a "bod y lliwiau

a'r glendid o safon dda". Fodd bynnag, bu'r bobl ifanc yma hefyd yn trafod bod modd gwella rhai agweddau ar yr uned, er enghraifft "gweithgareddau mwy strwythuredig lawr y grisiau (e.e. cerddoriaeth gyda'r hwyr a grwpiau celf)", ac y dylai fod "cyfle i wella sgiliau'r staff sydd mewn cysylltiad â'r bobl ifanc i weithio oddi mewn i fframwaith Therapi Ymddygiad Gwybyddol". Bu rhai cyfranogwyr o'r digwyddiadau fforwm tai yn trafod nad oedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn diwallu eu hanghenion yn ddigonol:

C: Beth fyddet ti'n gwneud i wella bywydau pobl ifanc yng Nghymru?

A: Rydw i'n teimlo bod CAMHS yn ddibwrpas, dydw i ddim yn teimlo bod ots ganddyn nhw ydw i'n gwneud cynnydd CAHMS – fawr ddim cefnogaeth

— Aelod o Fforwm Tai

C: Oes gen ti'r gwasanaethau/gweithgareddau sydd eu hangen arnat ti? Yn yr ysgol/ble rwyd ti'n byw (gallai fod angen awgrymu, e.e. gwasanaethau ieuencid, mynediad at iechyd?)
A: Sylwadau – Na – gwasanaethau iechyd meddwl yn cymryd amser hir os oes rhywbeth ar gael o gwbl, dydyn nhw ddim yn gwranddo i weld beth yw'r broblem, ac maen nhw'n meddwl bod tabledi'n gallu ateb popeth. Dylen nhw wrando gynta cyn rhoi tabledi i chi. Doedd rhai ddim yn hoffi cymryd tabledi oherwydd sgîl-effeithiau difrifol ac effaith ar eu lefel o weithredu.

— Aelod o Fforwm Tai

Sgyrsiau

O ran beth ddylai Sally wneud fel Comisiynydd Plant, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y dylai hi weithio ar wella iechyd plant yng Nghymru:

Tasen i'n Gomisiynydd Plant, byddwn i'n gwneud yn siŵr bod pobl ag afiechydon terfynol yn cael y gofal mae arnyn nhw ei angen, er mwyn iddyn nhw fedru byw bywydau normal fel ni

—— Disgybl Ysgol

Tasen i yn lle Sally byddwn i'n sicrhau bod mwy o chwaraeon yn yr ysgol ac yn dysgu'r plant sut i goginio, fel eu bod yn bwyta'n fwy iach.

—— Llysgennad Gwych

Darpariaeth Hamdden

Mae darpariaeth hamdden yn cyfeirio at Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n nodi bod "gan blant hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, artistig ac adloniadol eraill". Bu nifer o'r cyfranogwyr ar draws gwahanol ddigwyddiadau yn trafod sut roedd cyfleusterau a gweithgareddau hamdden yn eu gwneud nhw'n hapus:

C: Beth sy'n gwneud i ti deimlo'n hapus?

A: Chwaraeon, Fy meic, Fy mhêldroed, rydw i'n teimlo'n hapus pan fydda i'n chwarae rygbi, Gymnasteg, Gwyliau gyda'r teulu yn y garafan, Dawnsio yn yr awyr agored, Nofio, Chwarae yn y parc

—— Plentyn yn Eisteddfod yr Urdd

C: Ydy pobl ifanc yn cael popeth sydd ei angen arnyn nhw i dyfu i fyny'n iach ac yn ddiogel? E.e. Gwasanaethau (Ysgol, Hamdden, A: Clybiau i bob oed, fel bod ni'n gallu gwneud ffrindiau, llyfrgell gyhoeddus, manau hamdden, siopau

—— Disgybl Ysgol Uwchradd

Ac eto, teimlai mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn y digwyddiadau fod angen mwy o gyfleusterau hamdden, a fyddai'n gwella bywydau plant yng Nghymru.

C: Pethau mae plant eu hangen, neu mae angen mwy ohonyn nhw:

A: Palmentydd, parciau sglefrio, offer chwaraeon, manau chwarae, rhyddid i chwarae yn y caeau

—— Llysgennad Gwych

C: Beth allai wneud bywydau plant yn well yng Nghymru?

A: Mwy o gyfleusterau i'w cymuned,

—— Llysgennad Gwych

Teimlai cyfranogwyr ar draws y gwahanol ddigwyddiadau ei bod hi'n bwysig i Sally sicrhau bod y plant yn cael cyfle i chwarae. Roedden nhw'n teimlo bod hynny nid yn unig yn gwella llesiant plant, ond hefyd yn fodd i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Tasen i'n Gomisiynydd Plant, byddwn i'n] Gwneud yn siŵr bod plant yn cael amser i chwarae.

—— Llysgennad Gwych

C: Tasen i yn lle Sally Holland byddwn i'n....

A: Mwy o gyfleusterau i bobl ifanc eu defnyddio tu allan i'r ysgol, Trefnu mwy o grwpiau ieuencid a'u hysbysebu er mwyn gwneud ffrindiau, byddwn i'n creu ac yn gwella mwy o glybiau ieuencid am ddim i bobl ifanc yn eu harddegau sydd wastod yn crwydro'r strydoedd

— Aelod o Gyngor Ysgol

Darpariaeth Ariannol

Nododd cyfranogwyr ar draws gwahanol ddigwyddiadau hefyd fod angen arian ar blant a phobl ifanc. Roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol bod plant a phobl ifanc eraill mewn sefyllfa ariannol lai ffafriol. Awgrymodd rhai plant a phobl ifanc y dylai Sally ganolbwyntio ar godi arian neu sicrhau mwy o gyllid ar gyfer gweithgareddau pobl ifanc, yn arbennig yn yr hinsawdd bresennol o doriadau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus:

C: Beth fyddet ti'n gwneud i wella bywydau pobl ifanc yng Nghymru?

A: Mwy o arian ar gyfer gweithgareddau pobl ifanc, cynnal a chynyddu cyllid

— Cyfarfod Fforwm Tai

C: Tasen i yn lle Sally Holland byddwn i'n....

A: Mwy o godi arian i sicrhau mwy o gyllid, Mwy o ddiwrnodau elusen i godi arian

— Aelod o Gyngor Ysgol CNPT

Darpariaeth Dechnolegol

Cyfeiriodd nifer o'r cyfranogwyr at y ffaith fod angen dyfeisiau technolegol fel

“Cyfrifiaduron newydd, TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu)” ar blant a phobl ifanc heddiw. Soniodd un o'r cyfranogwyr o ysgol uwchradd fod “dim rhyngwyd ganddyn nhw, felly eu bod nhw ddim yn gallu gwneud eu gwaith cartref”. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr y sylw y dylai Sally weithio ar ddarparu “Mwy o dechnoleg mewn gwahanol ysgolion” a “gwella systemau technoleg”.

Darpariaeth Gymraeg

Teimlai rhai o'r cyfranogwyr hefyd fod modd gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion. Roedd plant a phobl ifanc o wahanol rannau o Gymru'n teimlo hyn, gan gynnwys rhai o gadarnleoedd y Gymraeg a rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd mwy Seisnig:

C: Taset ti yn lle Sally Holland, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n gwneud i wella bywydau plant yng Nghymru?

A: Gwneud yn siŵr bod pob ysgol Saesneg yn cael gwersi Gymraeg

— Aelod o Fforwm Ieuencid Iau

C: Pethau mae plant eu hangen, neu mae angen mwy ohonyn nhw:

A: Mwy o gefnogaeth yn Gymraeg i ysgolion

— Llysgennad Gwych

Bu cyfranogwyr eraill yn trafod y dylai Sally weithio i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol:

C: Tasen i yn lle Sally Holland byddwn i'n....

A A: Trefnu mwy o weithgareddau cyfrwng Gymraeg tu allan i'r ysgol, Lledaenu'r iaith Gymraeg

— Aelod o Gyngor Ysgol

Dweud eich Dweud

Mae cyfres o erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cyfeirio at hawliau cyfranogiad neu ddweud eich dweud, er enghraifft, Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn), Erthygl 13 (Rhyddid Mynegiant), Erthygl 14 (Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) ac Erthygl 15 (Rhyddid i Gymdeithasu). Roedd nifer o blant a phobl ifanc o'r farn y dylai Sally weithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawriad gan eraill, ac yn cael rhoi barn ar wahanol agweddau ar eu bywydau:

Tasen i'n Gomisiynydd Plant, byddwn i'n gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael hawl i ddweud eu dweud am bethau sy'n effeithio arnyn nhw.

— Llysgennad Gwych

Ar draws y gwahanol ddigwyddiadau, cyfeiriodd y plant a'r bobl ifanc at ddulliau o ddweud eu dweud, naill ai ar ffurf enghreifftiau o gael gwrandawriad gan eraill a chyfle i roi barn, neu awgrymiadau ynghylch sut i wella cyfranogiad. Bu'r plant a'r bobl ifanc hefyd yn trafod materion lle cawson nhw gyfle i ddweud eu dweud a chael gwrandawriad, neu faterion roedden nhw am gael dweud mwy amdanyn nhw neu gael gwrandawriad yn eu cylch. Mae'n bosib bod y materion roedd y plant a'r bobl ifanc yn eu trafod yn gysylltiedig â hawliau darpariaeth a diogelu. Soniodd plant a phobl ifanc am eu profiad o ddweud eu dweud ymhlith gwahanol bobl, er enghraifft eu teulu/gofalwyr, staff ysgol ac o fewn eu cymuned leol a'r gymdeithas ehangach. Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc hefyd a oedden nhw am gael dweud eu dweud ar waith y Comisiynydd Plant, a

sut bydden nhw'n rhoi barn ar waith Sally. Mae hefyd yn ddiddorol nodi i'r Gofalwyr Ifanc wneud y pwynt "ai cael gwrandawriad yw'r cwestiwn cywir?" neu ddylen ni ofyn "Oes rhywbeth yn digwydd o ganlyniad?" yn ogystal.

Teulu/gofalwyr

Er bod nifer o'r plant a'r bobl ifanc yn cyfeirio at y cartref fel enghraifft dda o rywle lle roedden nhw'n cael gwrandawriad, doedd cyfranogwyr eraill ddim yn teimlo bod eu rhieni'n cymryd eu barn o ddifri, a nododd ymatebwyr o Fforwm lau fod "*ceisio cael ein rhieni i wrando arnon ni*" yn rhywbeth y gallai'r Comisiynydd Plant ei wneud i wella bywydau plant yng Nghymru. Roedd y pethau roedd plant yn teimlo y gallen nhw gael mwy o gyfle i ddweud eu dweud amdanyn nhw yn amrywio o gael rhyddid i fynd allan i ymddygiad eu rhieni/gofalwyr:

**C: Pethau rydw i angen - Gwael
A: Treulio mwy o amser gyda nghariad, Byddwn i'n hoffi mynd allan mwy**

— Disgybl mewn Ysgol Arbennig

**C: Pa bethau gallai plant gael dweud eu dweud yn fwy yn eu cylch lle rwyd ti'n byw?
A: Os wyt ti'n smygu, gwna fe mewn stafell arall, Gallu mynd i feicio gyda fy mrodyr, Gallu gofyn i ffrind ddod draw yn fwy aml, Dim iaith wael a dim gyrru gwael achos mae plant yn eich clywed chi.**

— Llysgennad Gwych

Yr Ysgol

Enghreifftiau cyffredin o sut roedd plant yn cael gwrandawriad neu'n cael dweud eu dweud yn yr ysgol oedd "Cyngor Ysgol", "yn ystod y gwersi" ac "yn y gwasanaethau". Bu rhai plant a phobl ifanc hefyd yn trafod eu bod yn cael dweud eu dweud ar faterion cysylltiedig â'r ysgol fel darparu "help i gyfweid athrawon", "pan fydd rhywun yn ypsetio/cael eu brifo mewn gwersi yn yr ysgol" a "gwisg ysgol".

Er gwaethaf hyn, teimlai nifer o blant a phobl ifanc nad oedd staff yr ysgol yn cymryd eu barn o ddifri. Er enghraifft, dyma un sylw o'r gweithdy Gofalwyr Ifanc yn Llandrindod:

Rydw i'n teimlo mod i'n cael gwrandawriad gartre ond nid yn yr ysgol. Yn yr ysgol maen nhw'n gwrando arnoch chi, ond dydyn nhw ddim yn eich cymryd o ddifri, a dydyn nhw ddim wir yn gwneud dim am y peth.

—— Gofalwr Ifanc

Tynnodd cyfranogwyr o'r digwyddiad fforwm tai sylw hefyd at y ffaith "nad oedden nhw'n cael sefyll yn y cyngor ysgol". Awgrymodd cyfranogwyr yn y Digwyddiad Llysgenhadon Gwych y dylai "pob dosbarth gael aelod ar gyngor yr ysgol". Dywedodd plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau hefyd y bydden nhw'n gallu cael dweud eu dweud yn fwy yn yr ysgol ar rai materion fel "cinio ysgol", "pa bynciau bydden nhw'n hoffi eu dysgu", "amser chwarae", "gwaith cartref", "arholiadau" (a materion diogelu fel "cloi'r gatiau"). Ar ben hynny, awgrymodd plant a phobl ifanc yn y gwahanol ddigwyddiadau ffyrdd o wella llais pobl ifanc yn yr ysgol. Ymhlith yr enghreifftiau roedd "blychau awgrymiadau", "trwy gadael fwy o blant siarad i "govenours" lleiol ac i pennaeth yr ysgol am sut i wneud yr ysgol yn well" a chael "gwersi neu amser dosbarth wedi'i seilio ar sut gall myfyrwyr fynegi barn".

Roedd sawl plentyn a pherson ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau yn teimlo y dylai Sally, fel Comisiynydd Plant, weithio i wella cyfranogiad plant yn yr ysgol a'u gallu i ddweud eu dweud

C: Tasen i yn Ile Sally Holland byddwn i'n.....

A: Ap ysgol i weld beth sy'n digwydd yn yr ysgol oherwydd bod pobl yn defnyddio apiau yn fwy na gwefannau, Cynnwys disgyblion eraill, Helpu plant i gael llais fel eu bod nhw'n gallu sefyll i fyny drostyn nhw eu hunain os ydyn nhw'n cael eu bwlio

—— Aelod o Gyngor Ysgol

C: Tasen i yn Ile Sally Holland byddwn i'n.....

A: Gwneud yn siŵr bod plant yn gwybod sut i gael eu clywed ac yn teimlo'n hyderus yn yr ysgol

—— S Disgybl Ysgol Uwchradd

Y gymuned leol

Rhoddodd plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau enghreifftiau o sut roedden nhw'n cael gwrandawriad neu'n cael dweud eu dweud yn y gymuned, er enghraifft mewn clybiau fel y "clwb ieuenctid" a'r "Cadets/ Scouts", "yn yr eglwys" a'r "siop goffi". At ei gilydd, teimlai plant a phobl ifanc fel pobl ifanc Ysgol John Bright yn Llandudno, ar draws y gwahanol ddigwyddiadau, y dylai plant gael "dweud eu dweud yn fwy yn y gymuned". Teimlai'r cyfranogwyr y dylen nhw gael dweud eu dweud yn fwy ar faterion oedd yn ymwneud â'u cymuned, megis cyfleusterau lleol fel "siopau" a "pharciau", gwasanaethau fel casglu biniau (e.e. "casglu biniau'n amlach" a materion diogelu fel sicrhau bod "dim cŵn yn y parc" a chael "mwy o oleuadau traffig". Rhai awgrymiadau ar gyfer gwella cyfranogiad plant yn y gymuned oedd "cynnal ymgynghoriadau â phobl yn y gymuned" (a "phleidleisio dros blant i gynrychioli eu cymuned").

Y gymdeithas ehangach

Yn y gwahanol ddigwyddiadau, rhoddodd y plant a'r pobl ifanc wahanol enghreifftiau o sut roedden nhw'n cael gwrandawriad gan y gymdeithas ehangach, oedd yn cynnwys "fforymau ieuenctid", trwy lenwi "holiaduron" a chan wahanol unigolion fel "meddygon" ac "ymgyngorydd iechyd". Nododd pobl ifanc yn y digwyddiad fforwm tai hefyd eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o gael gwrandawriad gan "weithiwr cymorth" a "sefydliadau" penodol. Nododd gofawyr ifanc hefyd eu bod yn cael gwrandawriad gan "wasanaethau gofawyr ifanc".

Ar yr un pryd, rhoddodd y plant a'r pobl ifanc enghreifftiau hefyd pryd nad oedd y gymdeithas ehangach yn cymryd eu barn o ddifri. Nododd pobl ifanc yn y digwyddiad fforwm tai a'r Gweithdy Gofawyr Ifanc eu bod wedi cael profiad o beidio â chael gwrandawriad gan y "gwasanaethau cymdeithasol" (sylw un o'r cyfranogwyr oedd "rhowch alwad yn ôl i mi

ar yr adeg pan wnaethoch chi addo") a sefydliadau fel y "Ganolfan Waith".

Awgrymodd plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau nifer o ffyrdd o gynyddu llais pobl ifanc yn y gymdeithas ehangach. Er bod rhai pobl ifanc yn pryderu am roi pleidlais yn 16 oed, gan eu bod yn credu "eich bod chi'n ifanc, yn fregus ac yn ansicr ynghylch pleidleisio yn yr oed yna", roedd plant a phobl ifanc eraill ar draws y gwahanol ddigwyddiadau yn teimlo y dylen nhw gael "pleidlais i weld ydyn nhw eisiau pleidleisio'n 16 oed". Ymhlith yr awgrymiadau eraill ynghylch gwella cyfranogiad pobl ifanc roedd "ychwanegu arolygon mwy diddorol i ni eu llenwi", "sefydlu cyfarfodydd rhwng grwpiau o pobl ifanc" a "Gweithwyr y Llywodraeth/Awdurdodau Lleol yn dod i'r ysgol i gasglu barn y myfyrwyr".

Teimlai plant yn y Digwyddiad Cyngorau Ysgol hefyd y dylai Sally, fel Comisiynydd Plant, sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael dweud eu dweud ar faterion sy'n effeithio ar y gymdeithas ehangach, er enghraifft "awgrym y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd."

Cael dweud eu dweud ar Waith y Comisiynydd Plant

Teimlai'r holl blant a phobl ifanc a holwyd y dylen nhw gael dweud eu dweud ar Waith y Comisiynydd Plant. Awgrymodd plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol ddigwyddiadau nifer o wahanol ffyrdd y gallen nhw roi eu barn ar waith Sally. Cafwyd awgrymiadau gan nifer o'r plant a'r bobl ifanc megis "dylai Sally ymweld â mwy o ysgolion", trwy "holiaduron" (yn ogystal â thrwy gael "fforwm i siarad â Sally a'r staff"). Awgrymodd plant a phobl ifanc eraill y gallen nhw ddweud eu dweud am waith Sally trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth newydd fel "Gwefan i bostio sylwadau a safbwyntiau", "gweminar" a hefyd "Gallu anfon neges ar ap i'r comisiynydd".

Cafwyd trafodaeth ymhlith y myfyrwyr am y posibilrwydd o sefydlu'r cynllun Llysgenhadon Gwych mewn ysgolion Uwchradd. Nododd y myfyrwyr fod angen brandio'r cynllun Llysgenhadon Gwych a'i "deilwra ar gyfer yr ysgol uwchradd". Nodwyd hefyd y byddai angen hyrwyddo'r cynllun Llysgenhadon Ysgolion Uwchradd mewn nifer o ffyrdd, trwy "gyflwyniadau mewn gwasanaethau", "taflenni a phosteri yn yr ysgol" yn ogystal â chael "Seren i ymwneud â'r cynllun".

Adborth yr Oedolion

Nawr byddwn ni'n troi at y deunydd a gasglwyd gan weithwyr proffesiynol ac oedolion eraill – ac yn ei drafod o dan yr un categorïau cyffredinol ag yn achos adborth y plant.

Materion trawsbynciol cyffredinol

Yn gyntaf oll, roedd sawl thema drawsbynciol gyffredinol iawn yn y deunydd a gasglwyd gan weithwyr proffesiynol ac oedolion eraill.

CCUHP

Roedd y gyntaf yn ymwneud â'r hawliau o dan CCUHP yn gyffredinol. Soniodd ymatebwyr am bwysigrwydd hybu gwybodaeth plant am eu hawliau:

Addysg ddinasyddiaeth briodol mewn ysgolion fel bod plant yn deall eu hawliau ac ati.

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Mae angen i bob plentyn wybod am eu hawliau a'u deall – drwy hynny bydden nhw'n deall pryd dydyn nhw / dyw eu ffrindiau ddim yn derbyn yr hawliau hynny

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Cafwyd trafodaeth ddiddorol hefyd ynghylch cadarnhau'r hawliau hyn gan rai asiantaethau:

'Mae angen cyd-destun ar hawliau – ddylen nhw ddim bod yn rhywbeth meddal yn unig'

— Cyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Sicrhau bod pob ysgol yn cofleidio CCUHP

— Athro

Cyllidebau/arian

Soniodd nifer o ymatebwyr am effaith toriadau gwariant cyhoeddus, weithiau mewn ystyr gyffredinol iawn, ac weithiau mewn cyd-destunau penodol iawn, yn arbennig ysgolion:

Effaith cyni pellach ar wasanaethau llesiant plant

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Mae disgwyl i ysgolion gwmpasu mwy, ond heb gyllideb/adnoddau i dalu am hynny

— Athro

Mwy o amser ac arian i gyflawni gofynion cyngor yr ysgol. (Mae amser i weithredu yn broblem fawr)

— Athro

Diffyg cyllideb – cymorth
Cynorthwywyr Cynnal Dysgu yn
diflannu o ysgolion

Diffyg cyllideb ar gyfer offer yn y
dosbarth. Mae cyfyngu hyd yn oed
ar bapur – dim arian ar gyfer llyfrau

Toriadau parhaus gan y Llywodraeth
– sut mae disgwyl i ni gynnal neu
wella safonau os oes llai o arian a
gwasanaethau

— Athrawon

Diffyg staff yn y gwasanaethau
cymdeithasol, gan roi disgyblion
mewn perygl – atgyfeiriadau'n
cymryd oesoedd

— Athro

Roedd hefyd rai sylwadau am degwch yr
ariannu o gymharu Cymru a Lloegr::

Sicrhau adnoddau a chyfleusterau
cyfatebol i bob ysgol yng Nghymru.
Sicrhau cyfleoedd cyfatebol i'r rhai
sy'n cael eu darparu i ysgolion yn
Lloegr ac yng nghanol dinasoedd.

— Athro

Ariannu ym myd Addysg yng
Nghymru sy'n cyfateb i'r hyn sydd
yn Lloegr

— Cynhadledd Awdurdodau Lleol

Anghydraddoldebau yng Nghymru

Cododd sawl person o wahanol grwpiau
proffesiynol fater gwasanaethau
anghyfartal yng Nghymru, er enghraifft:

Dechrau'n Deg yn rhagorol, ond ni
roddir sylw i farn broffesiynol
ymwelwyr ieched ynghylch y loteri
côd post

— Ymwelydd Iechyd neu Nyrs Ysgol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Yn olaf, mynegwyd pryderon ynghylch ffurf
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a
Llesiant 2014

cyflawni newidiadau mawr ag
adnoddau sy'n lleihau... bod
oedolion yn rhy amlwg yn y Ddeddf
a'r codau... mae elfen bartneriaeth y
Ddeddf yn wan yn achos
gwasanaethau plant

— Cyfarfod â Chyfarwyddwyr a
Phenaethiaid Gwasanaethau

Yn y cyswllt hwn, cafwyd ymholiad hefyd
gan Gyfarwyddwr Corff Anllywodraethol
ynghylch sut bydd y Ddeddf yn cael ei
monitro

Grwpiau penodol o blant

Fel yn achos y deunydd gan blant, rydym
wedi cynnwys sylwadau ynghylch
anghenion grwpiau penodol o blant yn y
deunydd a drafodir isod. Y grwpiau a
nodwyd amlaf gan oedolion fel
blaenoriaethau i'r Comisiynydd oedd plant
sy'n derbyn gofal a phlant anabl. Grwpiau
eraill y soniwyd amdanynt yn llai aml oedd
y rhai nad ydynt mewn addysg brif-ffrwd,
gofalwyr ifanc a phlant mewn teuluoedd
sy'n ceisio lloches.

Diogelu

Yn gyffredinol, ni soniodd oedolion mor aml am faterion y gellid eu rhoi mewn categori o dan y pennawd 'diogelu' ag am faterion yn ymwneud â 'darpariaeth' neu 'dweud eich dweud'. Fodd bynnag, roedd nifer bach o themâu cyson, fel a ganlyn.

Diogelwch ar y Rhyngwrwd

Y thema 'ddiogelu' unigol fwyaf cyffredin, fwy na thebyg, yn y deunydd gan oedolion oedd diogelwch ar y rhyngwrwd a defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mynegwyd pryderon ynghylch y risgiau cyffredinol i blant, a chyfeiriwyd yn fwy penodol hefyd at seiberfwlio:

Helpu pobl ifanc i fod yn ddinasyddion digidol diogel a chyfrifol

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Cyfryngau Cymdeithasol, e-ddiogelwch – problem fawr, cadw plant yn ddiogel x 4

Gall mynediad am ddim i'r rhyngwrwd fod yn niweidiol (dim rheolaeth yn yr ysgol)

— Athro

Y cynnydd aruthrol mewn cam-drin plant yn y Deyrnas Unedig – llawer ohono'n gysylltiedig â'r rhyngwrwd. Dylai hyn fod yn uchel ar agenda weithredu'r Comisiynydd Plant

— Llywodraethwr Ysgol

Diogelwch ar y Rhyngwrwd – monitro, hyfforddiant/gwybodaeth i rieni, seiberfwlio, cyfryngau cymdeithasol

— Athro

Mae'n ddiddorol nodi, mewn cymhariaeth â thema gyson seiberfwlio, mai ychydig iawn o oedolion a nododd fathau eraill o fwlio fel blaenoriaeth allweddol.

Taro neu smacio plant

Codwyd mater rhieni'n taro eu plant gan nifer o weithwyr proffesiynol

Pryd byddwch chi'n dod i benderfyniad ar yr ymgyrch 'Sdim Curo Plant?

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Materion diogelu eraill

Cafwyd hefyd nifer bach o sylwadau eraill am faterion diogelu, gan gynnwys trais domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn ogystal ag ymateb gwasanaethau cymdeithasol i atgyfeiriadau diogelu:

Mae cam-drin domestig yn fater anferth i'r rhieni ifanc rydyn ni'n eu cefnogi. Fydd yna bwysau ar ysgolion i hybu perthnasoedd iach?

— Gweithiwr sector gwirfoddol

Mae angen i'r ymatebion i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant fod yn lleol, ond wedi'u cysylltu â strategaethau ar lefel ranbarthol, Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae angen gweithio gyda'r trydydd sector sydd â'r sgiliau i wrando ar bobl ifanc sydd mewn perygl neu sydd wedi bod ar goll

— Cyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Gwasanaethau cymdeithasol ddim yn ymateb neu ddim yn gweithredu ar sail pryderon mae gweithwyr proffesiynol yn eu mynegi

— Athro

Risgiau yn y gymuned

Soniodd sawl un o'r ymatebwyr am draffig a materion diogelwch ffyrdd o dan bennawd cyffredinol 'diogelu', a nodwyd amrywiaeth o risgiau eraill yn y gymuned hefyd, er enghraifft:

Diogelwch ar y strydoedd = mae toriadau cynghorau'n golygu bod clybiau, pyllau nofio a llyfrgelloedd yn cael eu cau, fel bod DIM BYD i blant ei wneud ar ôl ysgol neu ar benwythnosau.

**Mae llawer o blant yn wynebu problemau'n rheolaidd ar y strydoedd ac mewn parciau, a dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddiogel
Y gymuned – materion cyffuriau a dylanwad brodyr a chwiorydd hŷn x 2**

— Athrawon

Eithafiaeth

Yn olaf, cyfeiriwyd at bwysigrwydd mesurau i wrthweithio eithafiaeth mewn un fforwm.

Darpariaeth

Gallai cyfran llawer mwy o sylwadau'r oedolion gael ei chategoreiddio o dan thema gyffredinol 'darpariaeth', ac rydym yn trafod y rheiny yma gan ddefnyddio categorïau tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd i drafod sylwadau'r plant o dan y pennawd hwn.

Tlodi/anghydraddoldeb

Yn gyntaf, roedd pryder cyffredinol ynghylch tlodi

Mae gwasanaethau wedi dioddef toriadau yn yr ysgol a'r tu allan. Rwy'n pryderu'n arbennig am yr effaith ar blant pan fyddan nhw'n byw mewn tlodi

— Athro

ac roedd nifer o weithwyr proffesiynol yn gweld hyn fel blaenoriaeth bwysig i'r Comisiynydd:

Hybu gwasanaethau, polisiau a deddfwriaeth i leihau/ddileu tlodi plant

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Roedd hefyd faterion mwy penodol ar gyfer rhai grwpiau o blant:

Cefnogaeth i wrthwynebu'r newidiadau i'r Lwfans Myfyrwyr Anabl.

— Gweithwyr sector gwirfoddol

Addysg

Cafwyd amrywiaeth eang o sylwadau am anghenion a darpariaeth addysgol. Roedd llawer o'r rhain yn cyfeirio at blant yn gyffredinol:

Dim profion yn y Cyfnod Sylfaen

— Local authority conference

Delio gyda straen arholiadau

— Athro

Mwy o gefnogaeth yn y dosbarth i bob gallu

— Teacher

Gwella'r ddarpariaeth cyn-ysgol ac ar ôl ysgol

— Athro

Pynciau addysgol eraill cyffredinol y cyfeiriodd oedolion atynt, ond nad ydynt i'w gweld yn y dyfyniadau uchod, oedd yr angen am ddiwygio'r cwricwlwm ysgol, pwysigrwydd Dechrau'n Deg a mentrau blynyddoedd cynnar eraill, clybiau brechwast a'r angen am well mynediad i lyfrgelloedd.

Yn ogystal â'r pynciau cyffredinol hyn, codwyd nifer o faterion addysgol yng nghyswllt grwpiau penodol, gan gynnwys plant oedd wedi'u gwahardd o'r ysgol, plant sy'n derbyn gofal a phlant anabl:

Addysg wael yn y cartref i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd

— Llywodraethwr Ysgol

**Cyrhaeddiad PDG mewn ysgolion –
y bwlch rhwng PDG a phlant nad
ydynt yn derbyn gofal**

— National Social Services Conference

Cyllid i gefnogi disgyblion ag ADY

— Llywodraethwr Ysgol

**Sicrhau bod gofal personol yn cael
ei ddarparu mewn Colegau ar gyfer
pobl ifanc anabl.**

— Gweithwyr sector gwirfoddol

**Diffyg darpariaeth arbenigol y tu
allan i'r ysgol ar gyfer plant a phobl
ifanc sydd â chyflwr ar y Sbectrwm
Awtistiaeth**

— Cynhadledd Gwasanaethau
Cymdeithasol Genedlaethol

Iechyd corfforol ac ymddygiad iechyd

Nid oedd un thema unigol amlwg yn sylwadau'r oedolion ynghylch blaenoriaethau i'r Comisiynydd o dan bennawd cyffredinol materion 'iechyd corfforol'. Soniodd gwahanol unigolion a grwpiau am wahanol faterion, gan gynnwys ffordd o fyw, deiet, mynd i'r afael â gordewdra plant, beichiogrwydd yn yr ardegau a chyffuriau.

Ni chafwyd darlun clir iawn chwaith ynghylch gwasanaethau o dan y pennawd hwn. Roedd grwpiau o weithwyr iechyd proffesiynol yn dadlau dros wahanol flaenoriaethau, oedd yn cynnwys: nyrsio cymunedol i blant, nyrsio mewn ysgolion a chreu mwy o ganolfannau datblygiad plant:

**Does dim digon o Ganolfannau
Datblygiad Plant ac mae'r staff yn
annigonol – rhy ychydig o
Therapyddion Galwedigaethol,
Ffisiotherapyddion, a Therapyddion
Iaith a Lleferydd**

— Cynhadledd Gwasanaethau
Cymdeithasol Genedlaethol

Codwyd nifer o faterion eraill am y ddarpariaeth i blant anabl yn arbennig:

**Mae plant anabl yn goroesi adeg eu
geni ac yn byw'n hwy. Mae angen
coleg yn Ne Cymru i bobl ifanc sydd
ag anghenion cymhleth.**

— Gweithwyr sector gwirfoddol

Hefyd codwyd mater mynediad i ofal iechyd ar gyfer plant mewn ysgolion preifat/annibynnol (sydd o bosib heb ddarpariaeth nyrs ysgol) a phlant teuluoedd sy'n ceisio lloches:

**Mae plant oed ysgol sydd mewn llety
i rai sy'n ceisio lloches yn aml allan
o'r ysgol am fisoedd lawer, ac felly â
mynediad gwael at ofal iechyd
(Meddyg Teulu yn unig)**

— Nyrs ysgol

Iechyd meddwl / llesiant

Codwyd mater iechyd meddwl yn llawer amlach na iechyd corfforol. Er i rai gweithwyr proffesiynol ganolbwyntio'n benodol ar salwch meddwl, roedd cydnabyddiaeth ehangach hefyd o bwysigrwydd iechyd meddwl cadarnhaol:

**Gwaith ataliol ym maes llesiant, yn
arbennig yn achos materion iechyd
meddwl 'lefel isel' sydd ddim yn
cyrraedd y trothwy ar gyfer
ymyrraeth iechyd. Hyfforddiant
bywyd sy'n ymdrin â materion
gwaelodol sydd heb eu harchwilio.
Heb eu datrys, maent yn effeithio ar
allu a symbyliad pobl ifanc i symud
ymlaen.**

— Gweithiwr Sector Gwirfoddol

Sgyrsiau

Dim digon o ganolbwyntio ar lesiant yn gynnar. Rhestrau aros. [Diffyg] argaeledd lleoedd yn haen 4... gall fod yn anodd sicrhau lle yng nghyswllt trothwyon, ac mae rhai plant yn mynd i ofal diogel neu ofal preswyl yn amhriodol.

- Nodiadau o gyfarfod â Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau

Yn gysylltiedig â hyn, mynegwyd barn bod y pwyslais ar gyrhaeddiad mewn ysgolion wedi tyngu oddi wrth y ffocws ar lesiant.

Y thema fwyaf cyffredin ynghylch gwasanaethau i blant yn yr ymgynghoriad ag oedolion oedd rôl CAMHS. Er enghraifft:

Gwasanaethau CAMHS, o'r rhai ataliol i'r rhai arbenigol

- National Social Services Conference

Diffyg gwasanaeth iechyd meddwl cynradd i blant a phobl ifanc

- Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Mynediad PDG a phlant eraill i wasanaethau CAMHS – dyw anghenion plant ddim yn cael eu diwallu, neu ddim yn cael eu diwallu'n amserol..

- Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Mwy o gefnogaeth therapiwtig ar gael i blant (CAMHS) – cefnogaeth i blant mewn angen a'u teuluoedd (gwaith ataliol)

- Gweithiwr cymdeithasol

Nodwyd amrywiaeth o faterion yn y trafodaethau gyda gweithwyr CAMHS proffesiynol:

- Capasiti cyfyngedig yn y gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol
- Mae'r Timau Cymunedol (haen 2/3) yn fach ac yn fregus yn wyneb prinder staff os bydd achosion o salwch neu gyfnodau mamolaeth;
- Materion staffio a recriwtio cyffredinol – mae'r holl Fyrddau Iechyd Lleol yn pysgota o'r un pwl, ac mae perygl dadsefydlogi gwasanaethau wrth i staff symud swyddi;
- Timau cymunedol trwm dan arweiniad meddygol nad ydynt o reidrydd yn gynaliadwy na hyd yn oed yn addas at y diben;
- Dim gwasanaeth diogel ar gael;
- Gwasanaeth Anabledau Dysgu cymedrol i ddifrifol ar goll;
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau/Dadwenwyno ar goll;
- Gwasanaeth i bobl ifanc sydd â phroblem iechyd meddwl o ganlyniad i anaf corfforol ar goll;
- Darpariaeth argyfwng – y ddaearyddiaeth yn rhwystr, felly edrych ar fodolau eraill o ofal (e.e. swydd cyswllt mewn argyfwng);
- Materion pontio o CAMHS i Wasanaeth Iechyd Meddwl i Oedolion – anawsterau ariannu yma hefyd.
- **Nodiadau o gyfarfod gyda grwp o weithwyr proffesiynol CAMHS**

Sgyrsiau

a hefyd ystod o flaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau, gan gynnwys:

- Hyfforddiant CBT
- Therapi a chwrsela
- Gwell gwasanaethau cymunedol i atal derbyn cleifion i'r ysbyty, ac er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu cadw yn yr ysbyty'n hwy nag sydd angen
- Gwell hyfforddiant i nyrsys
- Therapiau creadigol
- Seicotherapi
- Gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau
- **Nodiadau o gyfarfod gyda grŵp o weithwyr CAMHS proffesiynol**

Gwaith cymdeithasol

Mewn cyferbyniad â'r materion addysg a iechyd, ychydig iawn o sôn gafwyd am y ddarpariaeth gwaith cymdeithasol gyffredinol (ac eithrio ambell sylw ynghylch diogelu, sy'n derbyn sylw o dan y pennawd 'Diogelu'). Roedd un gweithiwr proffesiynol yn dadlau y dylid gweld gwaith cymdeithasol fel '*gwasanaeth hanfodol*'.

Fodd bynnag, cafwyd nifer sylweddol o sylwadau mwy penodol ynghylch y ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal. Un ffactor yr oedd nifer o weithwyr proffesiynol yn pryderu yn ei gylch oedd ble roedd lleoliadau'n cael eu trefnu

PDG – gormod o leoliadau tu allan i'r sir. Anodd monitro ansawdd/cysondeb o ran gofal

- Nyrs Ysgol neu Ymwelydd Iechyd

Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn aros yn agos at eu teuluoedd, eu ffrindiau ac o fewn eu cymuned, oni bai bod rheswm da iawn dros eu lleoli i ffwrdd o'r dref/pentref sy'n gartref iddynt. Ni ddylid eu lleoli mewn Awdurdodau eraill

- Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Creu gwell lleoliadau maethu/arbenigol i sicrhau bod mwy o PDG yn aros yn yr ardal lle maen nhw'n byw

- Gweithiwr cymdeithasol

Eiriolaeth i blant mewn gofal a rhai sydd mewn gofal yn Lloegr sy'n dod o awdurdodau yng Nghymru

- Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Roedd pryderon hefyd ynghylch

Lleoliadau tu allan i'r sir, yn bennaf o Loegr ond hefyd o Ogledd Iwerddon.

Plant ddim yn cael ymweliadau.

Anghenion lefel uchel iawn, heb fawr ddim cynllunio ymlaen llaw ynghylch addasrwydd gwasanaethau lleol a hefyd y diwylliant lleol (sioc ddiwylliannol mynd o Lundain i ardal wledig yng Ngwynedd, er enghraifft).

Pan fyddan nhw'n mynd ar goll – sydd yn digwydd, dyw'r awdurdodau cartref ddim bob amser yn barod i ymateb.

Rhagdybiaethau camarweiniol bod manau fel Wrecsam yn darparu amgylchedd diogel i blant sydd wedi dioddef trosedd ac ati.

- Cyfarfod gyda Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau

Roedd amrywiaeth o sylwadau eraill yn cyfeirio at brosesau adolygu a rôl Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs), a chodwyd cyfres o faterion oedd yn ymwneud â maethu mewn un cyfarfod penodol:

Newid lleoliad yn digwydd oherwydd cyfyngiadau ariannol ar awdurdodau lleol, nid er lles pennaf y plentyn

Swyddogion Adolygu Annibynnol ddim yn herio penderfyniadau awdurdodau lleol yn effeithiol

Camagraff bod gwahaniaeth sylweddol yng nghost lleoliadau maeth “mewnol” awdurdod lleol a lleoliadau sy’n cael eu darparu’n annibynnol.

Barn plant ynghylch peidio â dymuno cael eu symud yn cael ei hanwybyddu.

—— Nodiadau o gyfarfod gyda darparwr maeth

Roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn pryderu ynghylch camddeall a chamgynrychioli mwy cyffredinol yng nghyswllt yr hyn oedd yn digwydd yn achos plant sy’n derbyn gofal:

Mae’r ffigurau ar gyfer PDG yn codi oherwydd bod gofal gan berthnasau’n cael ei orffurfioli, ac mae hynny’n cael ei sbarduno gan y llysoedd a chan bryderon ariannu

—— Nodiadau o gyfarfod gyda Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau

Pryder nad yw’r disgwrs bod gormod o blant mewn gofal yn adlewyrchu’r ffaith bod gofal yn gallu bod yn ymyriad cadarnhaol.

—— Nodyn ar ffeil o gyfarfod

Hamdden (gan gynnwys chwarae)

Thema arall gymharol gyson yn sylwadau’r oedolion oedd hamdden a chwarae.

Chwarae, yn arbennig i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

—— Voluntary sector workers

Roedd un gweithiwr proffesiynol yn pryderu ynghylch:

Ymrwymiad gwannach i chwarae. Dylai gael ei sbarduno gan sylw cyffredinol 17 CCUHP ar chwarae.

Tensiwn rhwng rheoleiddio’r gweithlu plant a natur llawr gwlad y gwaith (chwarae a gwaith ieuenctid)

Gormod o gadw at amserlen a goruchwyliaeth ym mywydau plant (yn arbennig yn y dosbarth canol).

Chwarae awyr agored yn flaenoriaeth fawr i’w sefydliad: mae angen lle, amser a chaniatâd ar blant i chwarae’n rhydd

—— Pennaeth Chwarae, trydydd sector

Dadleuodd arbenigwr CAMHS hefyd y gallai hybu gweithgareddau awyr agored a chwaraeon greu manteision o safbwynt iechyd meddwl.

Yn gyffredinol, soniodd nifer o grwpiau ac unigolion am yr angen i sicrhau gwell cyfleusterau hamdden a chymunedol i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

Cyfleusterau, digwyddiadau, lleoedd i fynd iddyn nhw yn y gymuned ar ôl ysgol/ar y penwythnos. Nid dim ond i blant ifanc iawn. Digwyddiadau fel cynllun chwarae

— Athro

Mwy o argaeledd a darpariaeth o ran gweithgareddau i bobl ifanc yn eu harddegau.

— Athro

Mwy o glybiau gwyliau i blant. Mwy o glybiau ieuencid, clybiau Brownies, Guides, Scouts

— Rhiant

Mwy o weithgareddau ar ôl ysgol sydd ddim yn costio llawer, achos gall rhai fod yn ddrud, yn enwedig os oes gennych chi fwy nag un plentyn

— Rhiant

Mwy o weithgareddau ar gael gyda'r hwyr i bobl ifanc

— Teacher

Diffyg amwynderau lleol – gweithgareddau i blant yn y gymuned

Darpariaeth clybiau ieuencid – gwasanaethau hamdden

Dim digon o chwaraeon/darpariaeth ymarfer corff i bobl ifanc yn eu harddegau

Mannau diogel i chwarae yn y gymuned, gan sicrhau eu bod yn oed-briodol

— Athrawon

Dim digon o wasanaethau lleol ar gael am ddim – llawer o glybiau, ond mae angen talu am bob un

Mwy o lonydd beicio ac ati fel bod plant yn gallu mynd ar feic neu sgwter neu gerdded i'r ysgol – mwy o fannau i barcio beiciau

— Athro

I sicrhau iechyd a ffitrwydd a hefyd lesiant merched Mwslimaidd ifanc, mwy o nofio i ferched yn unig, ond hefyd fwy o ddsbarthiadau cadw'n heini y gall merched Mwslimaidd fynd iddyn nhw

— Sector gwirfoddol

Ymddengys bod barn gyffredin fod lefel gyfredol y ddarpariaeth hamdden yn annigonol, ac y dylai hynny fod yn fater blaenoriaeth i'r Comisiynydd.

Darpariaeth laith

Codwyd darpariaeth Gymraeg gan un grŵp o weithwyr proffesiynol yng nghyswllt plant ag anghenion dysgu ychwanegol:

Cynhwysedd ac ADY. (mae rhieni rhai plant anabl yn cael eu hannog i beidio â dewis darparwyr cyfrwng Cymraeg – codwyd hyn hefyd mewn cyfarfod diweddar gyda Chomisiynydd y Gymraeg)

— Nodiadau o gyfarfod gyda darparwyr meithrin

Cododd un grŵp hefyd fater mwy o gefnogaeth i ddefnyddio laith Arwyddion Prydain, gan nodi pedair blaenoriaeth: gwella mynediad i deuluoedd ddysgu laith Arwyddion Prydain (BSL); ychwanegu BSL at y cwricwlwm cenedlaethol; gwella mynediad plant i addysg drwy BSL; gwell mynediad i wasanaethau (e.e. addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, cludiant cyhoeddus) drwy BSL.

Pontio

Mater blaenoriaeth a godwyd mewn sawl fforwm a digwyddiad oedd cefnogaeth wrth bontio o ieuencid i oedolaeth..

Pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Dim ond rhif yw 18 ym mywyd y bobl ifanc, mae eu hanghenion yn parhau yr un fath

— Uwch Weithiwr Pontio

Digartrefedd – ‘diwylliant o Wely a Brecwast’

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Cyfeiriwyd at rai materion penodol yma yng nghyswllt plant anabl a phlant sy'n derbyn gofal

problem hysbys [i bobl ifanc anabl] yw bod y cymorth pontio'n ddarniog oherwydd bylchau rhwng meysydd gwasanaeth a chyllidebau.

Mwy o gefnogaeth i bobl anabl wrth fynd i gyfarfodydd yn y Ganolfan Waith, gan sicrhau eu bod yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt ac i wneud y profiad yn fwy realistig iddynt.

— Gweithwyr sector gwirfoddol

Dylai'r rhai sy'n gadael gofal gael yr un cyfleoedd a chanlyniadau â phlant sydd ddim yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol

Sgyrsiau

Rhieni

Yn olaf yn yr adran hon ar ddarpariaeth, bu sawl grŵp ac unigolyn yn trafod materion oedd yn ymwneud â rhieni a rhianta a all effeithio ar les plant. Cafwyd sylwadau cyffredinol am fagu plant:

Pwysigrwydd rhianta da a'r gefnogaeth sydd ar gael – mae angen hyrwyddo hyn

— Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol
Genedlaethol

Ac ambell sylw ynghylch anghenion rhieni mewn cyd-destunau penodol:

Rhieni ag AAA – sut mae helpu rhieni gyda'u sgiliau iaith a rhifedd

— Athro

Cefnogaeth i famau os oes ganddyn nhw broblemau lechyd Meddwl, yn hytrach na mynd â'r plentyn oddi arnyh nhw – cymorth i rieni heb farnu

— Rhiant

Galwodd un sefydliad cenedlaethol am roi sylw i iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru, gyda'r blaenoriaethau canlynol: ymyrraeth gynnar, hyfforddiant, meithrin gallu o ran gofal sylfaenol; meithrin gallu o ran gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol..

Cafwyd peth trafodaeth hefyd ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod rhieni'n parhau i gael mynediad i waith a chyfleoedd addysgol:

Gofal plant ar gyfer gwaith neu i ddychwelyd i fydd addysg**Angen aruthrol am gymorth ystyrlon i ddychwelyd i'r gwaith****Cyfleusterau gofal plant am ddim i rieni ifanc, i ddarparu hyfforddiant ac addysg bellach.**

Rydym ni'n gwneud hyn yn dda gan fod gennym ni feithrinfa ddi-dâl, ond mae angen hynny mewn mwy o sefydliadau. Dim ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd gan Golegau AB, ac mae hynny'n wir am gyrff statudol eraill hefyd

— Gweithwyr sector gwirfoddol

Dweud eich Dweud

Mae CCUHP yn cynnwys nifer o erthyglau sydd wedi'u grwpio o dan bennawd 'cyfranogiad'. Erthygl 12 yw'r agosaf at ddealltwriaeth llawer o bobl o ystyr hynny, fwy na thebyg:

Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae hawl gan blant i ddweud beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w barn

— CCUHP, Erthygl 12

Rhoi ystyriaeth i farn plant

Y syniad uchod oedd ffocws mwyafrif y sylwadau gafodd eu categoreiddio o dan y pennawd hwn.

Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch pwysigrwydd rhoi ystyriaeth i farn plant yn yr ysgol:

Mae angen gwranddo ar bob plentyn, nid dim ond grwpiau etholedig, e.e. trwy amser cylch

Dod o hyd i ffordd i BOB plentyn gael llais, nid dim ond Cyngor yr Ysgol a'r Llysgenhadon, e.e. bod Cyngor yr Ysgol yn defnyddio amser cylch i godi materion

— Athrawon

Pam dyw'r llywodraeth ddim yn gofyn barn disgyblion ynghylch profion?

— Athro

Annog Penaethiaid i fod yn fwy atebol am farn disgyblion

— Athro

Cynghorau ysgol sy'n delio gyda materion go iawn yn hytrach na rhai dibwys

— Athro

Cafwyd sylwadau hefyd am gyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau mewn cyd-destunau ehangach::

Sut gall ein plant ddweud eu dweud ar faterion os yw darpariaethau'n cael eu cymryd oddi arnyn nhw (cau pyllau nofio, llyfrgelloedd, clybiau ieuencid ac ati)

— Athro

Lleisiau plant wrth werthuso newid pwysig i'r gwasanaeth iechyd

— Ymwelydd Iechyd neu Nyrs Ysgol

Mae angen llwyfan cenedlaethol i gymryd lle'r Ddraig Ffyn-ci, ond mae angen i Bobl Ifanc o'u cymunedau feithrin hyder mewn fforymau lleol (yn yr ysgolion a'r ardal leol) cyn gallu cymryd rhan mewn fforymau awdurdod lleol ac yna ar lefel genedlaethol.

— Gweithiwr Ieuencid

Dod â'r Ddraig Ffyn-ci yn ôl

— Athro

Awyddus i weithio ar addysg wleidyddol a dinasyddiaeth – mae'n gwneud gwahaniaeth mawr pan fydd mentrau dan arweiniad cyfoedion ynghylch cofrestru pleidleiswyr ac ymgyrchoedd

— Gweithiwr Ieuencid

Gwnaeth rhai gweithwyr proffesiynol sylwadau penodol ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod plant anabl yn cael hawliau i ddweud eu dweud:

Eiriolaeth plant i'r rhai ag anghenion cymhleth nad yw eu llais yn cael ei glywed ond trwy eu rhieni

—— Ymwelydd Iechyd neu Nyrs Ysgol

Bod llais plant a phobl ifanc ag anableddau'n cael ei glywed ym mhob peth sy'n berthnasol iddyn nhw, a bod gweithredu ar sail hynny.

—— Gweithwyr sector gwirfoddol

Agweddau eraill ar ddweud eich dweud

Fodd bynnag, mae CCUHP hefyd yn cynnwys nifer o erthyglau eraill sydd wedi'u categorio'n nodweddiadol o dan bennawd cyfranogiad, sef: Erthygl 13 (Rhyddid mynegiant); Erthygl 14 (Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd); Erthygl 15 (Rhyddid cymdeithasu); Erthygl 16 (Hawl i breifatrwydd) ac Erthygl 17 (Mynediad i wybodaeth; cyfryngau torfol).

Ni chafwyd fawr ddim trafodaeth ar yr agweddau hyn ar hawliau plant yn sylwadau'r oedolion. Dyma rai enghreifftiau ynysig

Cael rhyddid i wneud, rwy'n cymryd risgiau, e.e. dringo coed.

—— Athro

Cysylltiad rhyngrwyd/ffôn symudol llawer gwell ledled Cymru

—— Athro

Diwedd glo

Mae'r adroddiad hwn wedi darparu crynodeb o'r adborth a ddarparwyd gan blant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod digwyddiadau Beth Nesa? / What Next?, gan ganolbwyntio ar yr hyn oedd ganddyn nhw i'w ddweud ynghylch y tair D – hawliau Diogelu, Darpariaeth a Dweud eich Dweud – sef meysydd thematig yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn yr adran olaf hon byddwn ni'n ceisio cyfuno rhai themâu trosfwaol o'r deunydd a gyflwynwyd yn ddisgrifiadol yn yr adran ar farn plant ac oedolion.

Yn gyntaf, mae'n bwysig gwneud ambell sylw ar natur y deunydd a gasglwyd. Trwy'r ymarferiad ymgynghori, llwyddodd swyddfa'r Comisiynydd i gasglu swm sylweddol o ddeunydd mewn cyfnod byr. Bu'r ymgynghoriad yn un eang a chynhwysol – yn cwmpasu holl ardaloedd daearyddol Cymru ac yn rhoi sylw i'r amrywiaeth a geir yn y boblogaeth blant, gan gynnwys grwpiau penodol o blant sydd o dan anfantais. Ar yr un pryd, fel sy'n anochel mewn ymarferiad o'r math hwn, ni ellir barnu bod y deunydd yn 'gynrychioliadol'. Er enghraifft, roedd sampl y plant yn yr ymgynghoriad wedi'i grynhwio i ryw raddau yn y grŵp oedran 9-11. Yn yr un modd, yn achos yr oedolion, roedd rhai grwpiau proffesiynol wedi'u cynrychioli'n llawnach nag eraill. O'r herwydd rydym yn fwriadol wedi osgoi rhoi gormod o bwyslais ar fesur y themâu a godwyd, ac mae'n bwysig bod y materion hyn hefyd yn cael eu cadw mewn cof wrth ddod i gasgliadau ar sail y deunydd.

O ran ystyried sut gall y deunydd lywio datblygiad blaenoriaethau'r Comisiynydd, mae'r farn a fynegwyd gan blant ac oedolion yn awgrymu o leiaf tri mater allweddol i'w cydbwyso.

Mater cyntaf i'w gydbwyso yw'r ffocws ar hawliau ac ar les (y ddwy agwedd ar gylch

gorchwyl y Comisiynydd). Mae ffocws ar les (neu lesiant) yn ehangu'r ystod o bynciau sydd i'w hystyried y tu hwnt i'r rhai y gellir rhoi sylw iddynt o anghenraid trwy ddull gweithredu seiliedig ar hawliau. Gall fod cwestiynau i'w datrys ynghylch i ba raddau gall y Comisiynydd fynd i'r afael â rhai o'r pynciau hyn, er enghraifft dweud eich dweud neu gefnogaeth emosiynol o fewn y teulu.

Ceir tensiwn hefyd rhwng y cyffredinol a'r penodol. Er bod plant yn adnabod anghenion penodol is-grwpiau arbennig, roedd mwyafrif eu sylwadau'n eitha cyffredinol eu natur. Roedd peth gwahaniaeth yma ym mhwyslais sylwadau'r oedolion, oedd yn canolbwyntio'n llawer amlach ar grwpiau penodol y gwelwyd bod ganddynt anghenion arbennig. Cafwyd llawer o argymhellion gan weithwyr proffesiynol i'r Comisiynydd roi blaenoriaeth i anghenion y grwpiau penodol hyn.

Yn drydydd, mae rhai gwahaniaethau allweddol rhwng blaenoriaethau'r plant a'r oedolion. Roedd y plant yn tueddu i sôn yn eitha cyffredinol am eu hanghenion, ac roeddent yn rhoi llawer mwy o sylw i faterion megis cariad a chefnogaeth emosiynol nag oedolion. Efallai ei bod hi'n anochel bod yr oedolion yn tueddu i ganolbwyntio llawer mwy ar faterion cysylltiedig â darparu gwasanaeth, yn aml yng nghyswllt eu rolau proffesiynol. Gwelwyd hefyd rai gwahaniaethau pwyslais ar faterion allweddol. Er enghraifft, ymddangosai oedolion yn gyffredinol yn llawer mwy pryderus ynghylch seiberfwlio na bwlio mewn cyd-destunau eraill, er bod y pwyslais fel arall yn achos y plant.

Fodd bynnag, er gwaethaf y tensiynau a'r gwahaniaethau hyn, ymddengys bod llawer iawn o dir cyffredin rhwng barn y plant a'r oedolion. Y gobaith yw y bydd y dull o gyflwyno'r deunydd yn galluogi'r rhai sy'n

Sgyrsiau

darllen y ddogfen hon i ganfod set o faterion
blaenoriaeth o'r math yma..

